# Arddangosfa Agored Tŷ Pawb 2026 - Telerau ac Amodau

Market Street
Wrexham
LL13 8BY

01978 292142

typawbopen@wrexham.gov.uk

**Cyflwyniad:**

Mae Tŷ Pawb yn ganolfan ddiwylliannol sydd wedi ennill nifer o wobrau, ac sydd wedi'i lleoli yn yr hen 'Farchnad y Pobol' yn Wrecsam. Rydym yn man ar gyfer cyfarfod, creu, chwarae, dysgu a masnachu. Gyda'n cymunedau, rydym yn rhannu orielau, stondinau marchnad, theatr, siopau, ardal fwyta, gardd ar y to ac ardaloedd cyhoeddus hyblyg.

Mae rhaglenni creadigol Tŷ Pawb yn rhoi bywyd i'w leoliad unigryw ac yn mynd i'r afael â materion brys byd-eang. Rydym yn gweithio gydag artistiaid a phartneriaid lleol, cenedlaethol a rhyngwladol i gynllunio, comisiynu a chyflwyno arddangosfeydd, prosiectau, perfformiadau a rhaglenni. Mae'r rhain yn galluogi ein cymunedau a'n hymwelwyr i fod yn ddefnyddwyr gweithredol o Dŷ Pawb.

Mae Tŷ Pawb yn lle mae croeso i bobl o bob oed, gallu a chefndir brofi, archwilio, mynegi a chyd-greu diwylliant ystyrlon a chynaliadwy.

Mae Tŷ Pawb yn rhan o Gyngor Wrecsam ac yn falch o gydweithio ag amrywiaeth o adrannau er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf posibl i'n cymunedau. Mae ein gwaith yn cael ei gefnogi gan ddeddfwriaeth flaenllaw Cymru sy'n arwain y byd: y Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Ers agor yn 2018, mae Tŷ Pawb wedi ennill cydnabyddiaeth ryngwladol fel enghraifft ragorol o sut y gellir plethu celf a bywyd â'i gilydd.

Mae cystadleuaeth gelf agored hynod boblogaidd Tŷ Pawb yn cael ei chynnal bob dwy flynedd; mae artistiaid yn cael eu gwahodd i gyflwyno hyd at dri darn o waith celf i'w hystyried ar gyfer eu harddangos yn ein harddangosfa agored. Denodd cystadleuaeth 2024 dros 4,500 o ymwelwyr.

Mae'r gystadleuaeth yn gyfle i artistiaid proffesiynol ac amatur arddangos eu gwaith ochr yn ochr yn ein galeri sydd wedi ennill gwobrau, ac i gael cyfle i ennill un o dair gwobr eleni.

# Arddangosfa Agored Tŷ Pawb 2026 - Telerau ac Amodau

**Nodiadau ar sut i ymgeisio:**

1. **Darllenwch y wybodaeth isod, gan gynnwys y telerau ac amodau.**
2. **Dilynwch y ddolen dalu a gwnewch y taliad priodol. Cadwch eich rhif cyfeirio taliad sy'n dechrau gyda - WRE……**
3. **Llenwch a chyflwynwch y ffurflen gyflwyno ar-lein, gan gofio atodi eich delweddau. Sicrhewch fod ffeiliau'r delweddau wedi'u hailenwi gyda'r teitl gwaith celf cyfatebol.**

Os oes angen cymorth arnoch i lenwi'r ffurflen gyflwyno, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, anfonwch e-bost at typawbopen@wrexham.gov.uk neu ffoniwch 01978 292144.

**Gwobrau:**

| | | |
|---|---|---|
| **Gwobr 1 –** | **Gwobr y Beirniad -** | **£1000** |
| **Gwobr 2 –** | **Gwobr y Masnachwyr -** | **£500** |
| **Gwobr 3 –** | **Gwobr y Cyhoedd -** | **£500** |

Bydd gwobr y beirniaid eleni yn cael ei dewis gan banel o dri artist sy'n gweithio yng Nghymru, a fydd yn cael eu cadarnhau.

(Rhaid i unrhyw un sy'n bwrw pleidlais dros wobrau'r bobl a'r masnachwyr ddatgan unrhyw gysylltiad a/neu gysylltiad â'r Artist a enwebwyd. Gall methu â datgan wneud hynny roi eich pleidlais yn ddi-rym. Ni chewch bleidleisio dros eich gwaith eich hun)

**Amodau Ymgeisio:**

i. Gall Artistiaid gyflwyno hyd at 3 darn o waith ym mhob cais a byddant yn cael eu hystyried ar gyfer eu dethol wrth dalu’r ffi ymgeisio briodol a darparu’r cyfeirnod talu (efallai y bydd angen prawf o’r hawl i ostyngiad).

ii. NI FYDD POB GWAITH YN CAEL EI DDEWIS. **NID** yw talu’r ffi yn gwarantu lle yn yr arddangosfa. **Ni ellir ad-dalu’r ffi ymgeisio**.

iii. Rhaid i ymgeiswyr fod yn 16 oed neu'n hŷn

iv. Rhaid bod y gwaith celf wedi'i greu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

v. **Costau Mynediad:**
Cyfadd safonol: £18 am hyd at 3 darn o waith

Cyfradd ostyngol: £12 hyd at 3 darn o Gwaith

Myfyrwyr, sy’n derbyn PIPs, digyflog/incwm isel, dros 67 oed

Darllenwch gymhwysedd ar gyfer cyfraddau consesiynol cyn gwneud taliad. Os and ydych yn bodloni'r cymhwysedd ar gyfer y gyfradd ostyngol a ddefnyddir, efallai y bydd eich Gwaith yn cael ei anghymhwyso ac ni roddir ad-daliad.

vi. **Ni fydd** gweithiau celf a gynhyrchwyd gan AI yn cael eu derbyn I'w hystyried o gwbl. Bydd cyflwyniadau a gynhyrchwyd yn cael eu gwrthod o'r gystadleuaeth ac ni fydd unrhyw ad-daliad yn berthnasolgenerated.

vii. Efallai y bydd angen sensro gwaith o natur oedolyn neu sensitif er mwyn ei arddangos

viii. Rhaid i bob gwaith sydd i'w hongian ar y wal fod wedi'i fframio gyda walblatiau yn union hanner ffordd ar ochrau'r ffrâm, neu fod yn barod i'w hongian fel arall. Am resymau yswiriant, ni allwn hongian gwaith ar gortyn. Nodwch ogwydd cywir y gwaith yn glir. Ni allwn dderbyn fframiau clip.

ix. Bydd gwaith digidol a ddewisir yn cael eu harddangos yn unol â disgresiwn/cyfleusterau'r oriel, ac fe ellir eu harddangos ar y cyd ar fonitor neu un sgrin. Oherwydd natur Arddangosfa Agored, ni chaiff unrhyw waith digidol fod yn hwy na 10 munud.

x. Rhaid i bob darn o waith fod wedi'i labelu'n glir ag enw'r Artist, teitl y gwaith a'r cyfrwng.

xi. Ni fydd gwaith a ddewisir i'w arddangos yn yr arddangosfa yn cael ei ryddhau cyn dyddiad olaf yr arddangosfa.

xii. Rhaid i'r Artistiaid gadarnhau nad yw'r gwaith y maent yn ei gyflwyno yn torri unrhyw hawlfraint. Ym mhob achos, rhaid i'r Artist indemnio Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn erbyn unrhyw golled neu iawndal allai godi yn sgil torri hawlfraint yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o ganlyniad i arddangos eu gwaith yn Arddangosfa Agored Tŷ Pawb 2026.

xiii. Bydd Tŷ Pawb yn cysylltu ag Artistiaid cyflwyniadau llwyddiannus erbyn 16/10/2026 fan bellaf.

## Danfon a Chasglu Gwaith Celf:

i. Os ydych chi'n danfon gwaith drwy'r post, nid yw Tŷ Pawb (CSBW) yn atebol nac yn gyfrifol mewn unrhyw ffordd am unrhyw waith sy'n mynd ar goll neu'n cael ei ddifrodi yn y post.

ii. Nid yw Tŷ Pawb yn atebol am unrhyw gostau danfon na chludo, gan gynnwys dychwelyd y gwaith i'r Artistiaid ar ôl yr arddangosfa, na chostau danfon unrhyw

waith celf a werthir; cyfrifoldeb yr Artist/y prynwr yn unig yw hynny, gan gynnwys ffioedd mewnforio/allforio

iii. Rhaid i'r gweithiau dethol gyrraedd drwy gwmni cludo yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 2.11.26, neu gael eu cyflwyno'n bersonol rhwng 5.11.26 a 7.11.26. Gall gweithiau sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad cau, sef dydd Sadwrn 7 Tachwedd, gael eu heithrio o'r arddangosfa.

iv. Ni fydd y gwaith a ddewiswyd y cael ei ryddhau tan ddyddiad olaf yr arddangosfa.

v. Nid yw Tŷ Pawb yn gyfrifol am gludiant na chostau postio i ddychwelyd y gwaith a ddewiswyd.

vi. Bydd gwaith ar gael i'w gasglu rhwng 04/03/27 a 06/03/27

vii. Ar ôl y dyddiad cau ar gyfer casglu, sef dydd Sadwrn 6ed o Fawrth 2027, nid yw Tŷ Pawb yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw waith nas casglwyd.

**(gellir gwrthod gwaith a ddewiswyd os nad yw'r amodau'n cael eu bodloni)**

## Gwerthu gwaith:

i. Os yw'r gwaith celf ar werth, rhaid nodi'r pris yn glir wrth ei gyflwyno a'i nodi ar y gwaith a ddewiswyd pan fydd yn cyrraedd yr oriel.

ii. Bydd Tŷ Pawb yn cymryd comisiwn sydd gyfwerth â 36% am unrhyw waith a werthir yn ystod yr arddangosfa. Bydd y taliad yn amodol ar reoliadau ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. (Er enghraifft, pris y gwaith: £100 – bydd CBSW yn cymryd £36 o gomisiwn a bydd yr Artist yn cael £64).

iii. Bydd y taliad i'r Artist yn cael ei brosesu ar ddiwedd yr arddangosfa a gall gymryd sawl wythnos.

## Yswiriant:

Bydd yswiriant CBSW yn yswirio'r gwaith a ddewiswyd ar ôl iddynt gael eu danfon ac ar ôl i adroddiad o'r cyflwr gael ei godi a'i gytuno gan y ddwy ochr. Caiff y gwaith ei yswirio nes y bydd yn cael ei gasglu ac y bydd adroddiad o'r cyflwr terfynol yn cael ei lofnodi a'i gytuno gan y ddwy ochr, oni fydd yn cael ei ddanfon drwy'r post.  Mae'r gwaith a ddewiswyd yn cael ei gyflwyno ar fenter y perchnogion eu hunain.

## Marchnata a chyhoeddusrwydd:

i. Mae Tŷ Pawb yn cadw'r hawl i dynnu lluniau o'r arddangosfa a'r gwaith ynddi er dibenion addysg, marchnata a chyhoeddusrwydd.
ii. Bydd Tŷ Pawb yn hyrwyddo'r arddangosfa ar draws amrediad eang o gyfryngau, gan gynnwys ein gwefan, ein platfformau cyfryngau cymdeithasol a'r wasg leol a chenedlaethol.

iii. Yr Artist fydd yn dal yr hawlfraint, ond drwy lofnodi'r ffurflen gais, mae'r artist yn cytuno i ni gael defnyddio delweddau o'u gwaith er dibenion addysg, marchnata, hyrwyddo a'r wasg.

**Datganiad:**

Drwy gyflwyno eich taliad i ymgeisio yn Arddangosfa Agored Tŷ Pawb, rydych yn cytuno i'r holl delerau ac amodau a nodir uchod.